# Cynllun Strategol Cafcass Cymru 2020-2025:
# Pum Mlynedd o Newid ac Effaith

Cafcass Cymru



Rhwng 2020 a 2025, bu Cafcass Cymru yn llywio cyfnod o newid sylweddol gan barhau i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd ledled Cymru. Bu ein nodau a'n gwerthoedd strategol yn sail i'n gwaith drwy gydol y cyfnod, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc wrth galon popeth a wnawn. Mae'r trosolwg hwn yn amlygu effaith y gwaith hwnnw a'r hyn a gyflawnwyd dros blant a theuluoedd yng Nghymru.

**2020:** Ymateb cyflym i Covid-19; parhad gwasanaeth wedi'i gynnal

**2021:** Cyhoeddi model peilot Braenaru; Gogledd Cymru yn ardal beilot gychwynnol

**2022:** Arolwg sicrwydd AGC yn graddio'r gwasanaeth yn "dda"

**2024:** Lansio ein Fframwaith Ymarfer – Rhoi Plant yn Gyntaf

**2025:** Cyflwyno'r model Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn* ledled Cymru; cyhoeddi Canllawiau Ymarfer Cam-drin Domestig

**100%** ...o ardaloedd gweithredol yn gweithredu'r model Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn erbyn Mawrth 2025

**91%** ...o achosion yn dangos ymgysylltiad effeithiol â phlant

**94%** ...o achosion yn dangos arfer cryf sy'n canolbwyntio ar y plentyn

**80%** ...o staff yn mynegi hyder mewn arweinyddiaeth dros Arolygon Pobl olynol

**74%** ...sgôr ymgysylltiad staff wedi adrodd dros Arolygon Pobl olynol yn ystod cyfnod o newid parhaus

**Gwobr Aur** ...gan y Proffesiwn Cyflawni Gweithredol (OPD) am gydweithredu gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF

* a elwid gynt yn fodel Braenaru

# Cynllun Strategol Cafcass Cymru 2020-2025

## Yr Hyn a Gyflawnwyd: Ein Nodau Strategol ar Waith

### Ein Gwasanaeth

**Arfer Gwell, Diogel sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn**

Dros y cyfnod hwn, newidiodd ein gwasanaeth yn sylweddol er mwyn cefnogi plant a theuluoedd yn well. Gwnaethom wreiddio dull Braenaru ledled Cymru, cryfhau arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a gwella'r modd y caiff lleisiau plant ac amrywiaeth eu deall a'u hadlewyrchu yn ein hasesiadau a'n hadroddiadau. Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn wedi cryfhau'r modd rydym yn dangos effaith ac yn sicrhau bod profiadau a chanlyniadau plant yn parhau'n ganolog i welliant gwasanaeth.

Canlyniadau allweddol

- Llais plant yn cael ei glywed yn gyson a'i adlewyrchu mewn penderfyniadau'r llys
- Asesiadau cynharach a chynllunio mwy diogel drwy Lysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn*
- Arfer cryf a chyson ledled Cymru
- Gwell dealltwriaeth o brofiad byw ac amrywiaeth plant

**Sicrwydd Ansawdd:**

Canfu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fod llais plant a phobl ifanc yn amlwg yn ein gwaith (2022).

### Ein Staff

**Medrus, Cefnogol ac yn Barod ar gyfer Newid**

Buddsoddwyd yn ein pobl er mwyn adeiladu gweithlu medrus, gwydn a chynaliadwy.  Trwy dysgu wedi'i dargedu, datblygu arweinyddiaeth a chymorth llesiant, gan gynnwys ymarfer sy'n ystyriol o drawma a datblygiad ymarfer estynedig, galluogwyd staff i ddarparu ymarfer o ansawdd uchel yn ystod cyfnod o newid sylweddol. Mae llwybrau newydd, gan gynnwys y fenter Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu Cynorthwyol, yn helpu i ddenu talent, cryfhau capasiti'r dyfodol a chefnogi cynaliadwyedd gwaith cymdeithasol yng Nghymru.

Canlyniadau Allweddol

- Ymgysylltiad staff uchel a hyder mewn arweinyddiaeth
- Ffocws cryf ar lesiant yn ystod diwygio'r system
- Arfer cyson, sy'n ystyriol o drawma ledled Cymru
- Llwybrau datblygu clir ar gyfer rolau a arweinyddiaeth yn y dyfodol

**Uchafbwyntiau'r Arolwg Pobl:**

- 74% ymgysylltiad cyffredinol
- 80%+ hyder yn yr uwch-arweinyddiaeth
- 70% yn teimlo'n ddiogel i herio'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud

### Ein  Rhanddeiliaid

**Partneriaethau Cryfach a Mwy o Ddylanwad**

Cryfhawyd gydweithredu ar draws y rhwydwaith cyfiawnder teuluol, gan gynyddu ein dylanwad a dysgu ar y cyd ar lefelau lleol a chenedlaethol.  Trwy ymgysylltu gweithredol â Braenaru, datblygu polisi cam-drin domestig a diwygio ehangach, gwnaethom gyfrannu mewnwelediad ymarfer a helpodd lunio newid ar draws y system.  Mae defnydd cryfach o ddata a phartneriaethau ymchwil wedi gwella ymhellach y modd y rhennir deallusrwydd a sut y darperir gwelliant ar draws y system ar gyfer plant a theuluoedd yng Nghymru.

Canlyniadau Allweddol

- Safbwyntiau Cymru yn cael eu cynrychioli mewn diwygio cenedlaethol
- Arweinyddiaeth ddibynadwy o fewn Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol
- Partneriaethau cryf gyda GLITEF, y farnwriaeth ac awdurdodau lleol
- cydnabyddiaeth genedlaethol am ddarparu ar y cyd

**Cydnabyddiaeth:**

Gwobr Aur ar y cyd gyda GLITEF am ddarparu Braenaru yng Nghymru (2025).

* a elwid gynt yn fodel Braenaru

# Cynllun Strategol Cafcass Cymru 2020-2025

## Sylw i Drawsnewid: Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn* a Cham-drin Domestig

### Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn*: Ffordd Wahanol o Weithio

Mae Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn yn cynrychioli'r newid mwyaf arwyddocaol i'r ffordd y mae achosion llys teuluol wedi'u rheoli yng Nghymru yn ystod cyfnod y cynllun strategol hwn. Drwy roi blaenoriaeth i ymholiadau cynnar a chanoli diogelwch a llais plant o'r cychwyn cyntaf, mae'r model wedi ail-lunio ymarfer yn sylfaenol ac wedi gwella amseroldeb ac ansawdd penderfyniadau ar gyfer plant a theuluoedd.

Roedd cyflawni'r newid hwn yn gofyn am gefnogaeth sylweddol i staff. Gan gydnabod y newid mewn ymarfer, cyflwynwyd rhaglen strwythuredig o baratoi ochr yn ochr â phob cam o'r broses weithredu, gan sicrhau bod ymarferwyr yn hyderus, yn cael cefnogaeth ac yn meddu ar yr offer i weithio mewn ffyrdd newydd. Wrth i'r model ddod yn rhan o fusnes fel arfer, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar lesiant a sicrhau bod disgwyliadau llwyth gwaith yn rhesymol ac yn gynaliadwy.

| O'r Blaen | | Nawr |
|---|---|---|
| …Asesiadau mewn darnau<br>…Cyfnodau hir yn y llys<br>…Ffocws cyfyngedig yn gynnar ar ddiogelwch | → | …Ymholiadau cynnar a chydgysylltiedig<br>…Adroddiadau Effaith ar y Plentyn<br>…Penderfyniadau cyflymach a mwy diogel i blant |

**Lleihad mewn hyd cyfartalog achosion: o 39–45 wythnos i 16–17 wythnos**

### Cam-drin Domestig: Newid Diwylliannol

Ar y cyd â Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn, cryfhaodd Cafcass Cymru ei ddealltwriaeth a'i ymateb i gam-drin domestig, gan wreiddio dull sy'n ystyriol o drawma ac yn canolbwyntio ar oroeswyr ar draws ymarfer. Mae hyn wedi cynrychioli newid diwylliannol sylweddol, gan gryfhau'r ffordd y caiff niwed, risg a diogelwch eu deall o fewn achosion llys teuluol.

Rhan allweddol o'r newid hwn oedd buddsoddi mewn gallu'r gweithlu. Rhwng Hydref 2024 a Mawrth 2025, cwblhaodd pob ymarferydd hyfforddiant Model Craidd Safe & Together, gan gryfhau ein gallu i adnabod ac asesu effaith gymhleth cam-drin domestig ar blant a theuluoedd.

**Yr hyn a newidiodd:**

- Arbenigedd arbenigol mewn cam-drin domestig wedi'i wreiddio o fewn y sefydliad
- Pob ymarferydd wedi'i hyfforddi yn y Model Craidd Safe & Together
- Lansio Canllawiau Ymarfer Cam-drin Domestig a phecyn dogfennau (Mai 2025)
- Datblygu partneriaethau cryf gyda sefydliadau arbenigol

**Mae'r gwaith hwn wedi cryfhau'r modd rydym yn asesu risg, yn deall niwed ac yn cefnogi canlyniadau mwy diogel i blant**

## Sylfaen Gryf ar gyfer y Dyfodol

Mae cyflawniadau 2020–2025 yn darparu sylfaen gryf ar gyfer cyfnod strategol nesaf Cafcass Cymru, gan sicrhau bod diogelwch, llais a llesiant plant yn parhau wrth galon popeth a wnawn.

* a elwid gynt yn fodel Braenaru